
Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Am ein hargymhellion

## Taflen Ffeithiau Hawdd ei Deall



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn hawdd ei ddeall o'r daflen ffeithiau '**Argymhellion a Chydymffurfiaeth**'.

Chwefror 2023

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **lliw glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch wirio ystyr y geiriau mewn glas ar **dudalen 16**.

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda:

**Cyfeiriad:** 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

**Gwefan:** www.ombwdsmon.cymru

**Ffôn:** 0300 790 0203

**Ebost:** holwch@ombwdsmon.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei wneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Ffotosymbolau. I ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

**Rhif trwydded**

**Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad........................................................................................................4**

**Beth rydym yn ei wneud pan rydym yn cael eich cwyn ........................ 6**

Os ydym yn penderfynu edrych i'ch cwyn....................................... 7

**Os oes angen i ni ymchwilio........................................................................9**

Pan fydd gweithredoedd wedi'u cwblhau........................................11

**Beth fydd yn digwydd os nad yw'r sefydliad yn dilyn yr argymhellion...........................................................................................13**

**Geiriau anodd..........................................................................................16**

# Cyflwyniad

Ni yw **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

Rydym yn delio gyda chwynion am



- **Gwasanaethau cyhoeddus**

Y Llywodraeth sy'n talu am **Wasanaethau Cyhoeddus.** Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cymdeithasol.




- Cynghorwyr lleol yn torri'r **cod ymddygiad**. Cynghorwyr lleol yw pobl sydd wedi'u dewis i redeg cyngor.

Mae cod ymddygiad yn golygu'r rheolau a'r safonau y mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn ei swydd.





Ein nod yw gwella **gwasanaethau cyhoeddus**.

**Mae'r ddogfen hon am:**



- beth rydym yn ei wneud i ddatrys cwyn am **wasanaethau cyhoeddus**



- **argymhellion** rydym yn eu cyhoeddi i'r **corff cyhoeddus**

Mae **argymhellion** yn golygu dweud pa weithredoedd sydd angen eu cymryd i ddatrys problem.



Sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd yw **cyrff cyhoeddus**. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian iddyn nhw redeg.





- beth fydd yn digwydd os na fydd y **corff cyhoeddus** yn dilyn ein **hargymhellion**.

# Beth rydym yn ei wneud pan rydym yn cael eich cwyn




Rydym am i bawb allu gwneud cwyn os oes angen.



Ac rydym am i bawb gael canlyniad clir i'w cwynion.



Byddwn yn edrych i mewn i'ch cwyn ac yn gwirio a allwn helpu.



Os byddwn yn darganfod bod y sefydliad wedi bod yn annheg gyda chi, gallwn roi **argymhellion** i'r sefydliad i wneud pethau'n iawn.




Gallwch ddysgu am y math o **argymhellion** y gallwn eu gwneud yn ein **taflen ffeithiau** rhwymedïau yma: [www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/rhwymediau/](www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/rhwymediau/)



Nid oes rhaid i gyrff cyhoeddus ddilyn ein gweithredoedd yn [1] l y gyfraith.




Fel arfer, mae cyrff cyhoeddus yn cytuno ac yn dilyn ein gweithredoedd oni bai bod ganddynt resymau i beidio.

## Os ydym yn penderfynu edrych i'ch cwyn

Gallwn edrych i'ch cwyn:



- Os gallai'r sefydliad fod wedi ymddwyn yn wael.



- Os yw'r hyn maen nhw wedi'i wneud wedi brifo chi neu wedi gwneud eich bywyd yn anodd.

**Os gallwn ddatrys eich problem yn gyflym:**



Byddwn yn edrych i'ch cwynion. Os ydym yn meddwl bod problem, byddwn yn gyntaf yn ceisio dod o hyd i ffordd gyflym i wneud pethau yn iawn.



Byddwn yn cysylltu â'r sefydliad ac yn gofyn iddo gymryd unrhyw weithredoedd i ddatrys eich problem.




Os bydd y sefydliad yn cytuno ac yn cymryd camau i ddatrys eich problem, yna bydd yr achos yn cael ei gau.




Mae'n rhaid iddyn nhw roi prawf o'r gweithredoedd sydd wediu cymryd i ddatrys eich problem.



Os nad yw eich problem wedi'i datrys o hyd, gallwch ddod atom ni. Efallai y byddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn eto.

# Os oes angen i ni ymchwilio




Mae ymchwiliad yn golygu edrych i mewn i rywbeth. Byddwn fel arfer yn gwneud ymchwiliad os ydym yn meddwl efallai bod problem ddifrifol.




Byddwn yn ymchwilio i weld a yw'r sefydliad ar fai os ydym yn meddwl:

- bod rhywbeth wedi mynd o'i le
- ac na allwn ddatrys eich problem yn gyflym.



Os ydym yn meddwl bod y sefydliad wedi bod yn annheg gyda chi, byddwn yn cyhoeddi argymhellion i ddatrys eich problem.



Byddwn yn rhannu dogfen ddrafft o argymhellion gyda **chi** a'r **sefydliad**.





Gallwch ddysgu mwy am beth rydym yn ei wneud pan rydym yn cael eich cwyn yma: taflen ffeithiau yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am gorff cyhoeddus yng Nghymru.




Byddwn yn sicrhau bod **chi** a'r **sefydliad** yn cael rhoi sylwadau ar yr **argymhellion** a wnawn.



Byddwn yn siarad gyda **chi** a'r **sefydliad** cyn i ni wneud unrhyw benderfyniad terfynol.




Os byddwn yn penderfynu newid yr **argymhellion** ar ôl trafodaethau, byddwn yn rhannu drafft newydd wedi'i ddiweddaru gyda **chi** a'r **sefydliad**.





Os yw'r sefydliad yn dal i anghytuno â'r gweithredoedd, efallai y byddwn yn cyhoeddi **adroddiad arbennig**.



Pan fydd y sefydliad yn cytuno, byddwn yn rhoi **adroddiad terfynol** i **chi** a'r **sefydliad**

**Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys:**



- yr argymhellion sydd wedi cael eu cytuno



- a dyddiadau pan fydd yn rhaid cwblhau'r gweithredoedd.

## Pan fydd gweithredoedd wedi'u cwblhau




Bydd angen i ni gael prawf gan y sefydliad bod pob gweithred wedi'i gwblhau.



Dylem gael prawf erbyn y dyddiad cau ar gyfer pob gweithred.




Gallai'r prawf fod yn bethau fel:

- copi o lythyr ymddiheuriad wedi'i anfon at y person a wnaeth y gŵyn.
- neu gopi o bolisi.



Byddwn yn penderfynu a yw'r prawf yn ddigon da.




Byddwn angen prawf ar gyfer pob argymhelliad.



Os yw'r sefydliad wedi cwblhau'r holl weithredoedd, byddwn yn anfon llythyr neu e-bost atoch **chi** a'r **sefydliad**.




Bydd y llythyr yn cadarnhau bod y sefydliad wedi dilyn yr holl argymhellion. Ac mae'r achos wedi'i gau.


# Beth fydd yn digwydd os nad yw’r sefydliad yn dilyn yr argymhellion



Os yw’r dyddiad cau ar gyfer rhoi prawf wedi mynd heibio, byddwn yn cysylltu â’r sefydliad i ofyn pam eu bod yn cymryd mwy o amser.



Pan fyddwn yn cael ymateb, byddwn yn darganfod a yw’r sefydliad wedi dilyn yr argymhelliad.





Os nad ydym yn cael ateb, efallai y byddwn yn cyhoeddi **adroddiad arbennig**.




Os ydym yn anhapus gyda’r prawf:

- Byddwn yn cysylltu gyda’r sefydliad ac yn gofyn am brawf gwell.



Os ydym yn dal i fod yn anhapus gyda'r prawf, efallai y byddwn yn cyhoeddi **adroddiad arbennig**.




Efallai y bydd y sefydliad yn penderfynu peidio â dilyn yr argymhellion oherwydd rhesymau fel:

- os yw pethau yn newid neu
- os yw'r person sydd wedi gwneud y gŵyn yn penderfynu nad yw eisiau i unrhyw weithredoedd gael eu cymryd



Byddwn yn gwirio gyda'r person sydd wedi gwneud y gŵyn os yw hynny'n wir.

**Efallai y byddwn yn cyhoeddi adroddiad arbennig:**




os nad yw'r sefydliad yn cyflawni'r **argymhellion** heb unrhyw resymau da




os yw sefydliad wedi cymryd gweithredoedd sy'n wahanol i'r rhai sydd wedi cael eu cytuno ac os ydynt heb fodloni'r **argymhellion** o hyd




Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost. Neu llenwch ein ffurflen ymholiad yma: www.ombwdsmon.cymru/cysylltu-a-ni.

# Geiriau anodd

## Cod Ymddygiad

Mae cod ymddygiad yn golygu'r rheolau a'r safonau y mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn ei swydd.

## Ymchwiliad

Mae ymchwiliad yn golygu edrych i mewn i rywbeth.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Y Llywodraeth sy'n talu am wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cymdeithasol.

## Corff cyhoeddus

Sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd yw cyrff cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian iddyn nhw redeg.

## Argymhelliad

Mae argymhelliad yn golygu dweud beth sydd angen ei wneud i ddatrys problem.